# Datganoli cyflog ac amodau gwaith athrawon - er gwell neu er gwaeth?

Mae **UCAC** yn gefnogol iawn i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros gyflog ac amodau gwaith athrawon i Lywodraeth Cymru. Pam? Er lles athrawon Cymru.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o blaid cyfundrefn **gyflog leol** ac yn parhau i erydu hawliau cyflog athrawon Cymru a Lloegr er mwyn cyrraedd y nod.

Mae UCAC:

- o blaid cyfundrefn **genedlaethol** ar gyfer athrawon Cymru
- o'r farn mai datganoli'r cyfrifoldeb dros gyflog ac amodau gwaith yw'r unig ffordd i **ddiogelu** cyflog athrawon Cymru
- yn pwysleisio bod rhaid **cynllunio'r dyfodol** mewn trafodaeth gyda'r undebau sydd yn cynrychioli'r proffesiwn

Mae UCAC wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried, fel mater o flaenoriaeth, pa fath o fecanwaith fyddai fwyaf addas ar gyfer ymdrin â'r cyfrifoldeb dros gyflogau ac amodau gwaith. Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r opsiynau sydd yn cynnwys:

- Corff tebyg i'r STRB (*School Teachers' Review Body)* yn rhoi argymhellion i'r Llywodraeth
- Trefn negodi ar y cyd (undebau, cyflogwyr, Llywodraeth)
- Trefn negodi ond gyda chorff annibynnol arbenigol yn cynghori
- Trefniadau tebyg i wledydd eraill e.e. yr Alban neu Gogledd Iwerddon

Mae angen achub y cyfle hwn i sefydlu gwell cyfundrefn a strwythur i athrawon Cymru nag sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

Mae'n holl bwysig caniatáu amser i gynllunio a sicrhau bod y mecanwaith yn ei le pan ddaw Bil Cymru yn Ddeddf. **Nid yw oedi'n opsiwn**.

## Beth sydd o'i le ar y gyfundrefn Cymru / Lloegr presennol?

Mae'r agenda ar gyfer diwygio ysgolion Lloegr wedi gyrru penderfyniadau am gyflog ac amodau gwaith athrawon Cymru.

Mae **Llywodraeth y D.U.** wedi mynd ati i gyflwyno mwy o bŵer i Lywodraethwyr dros ddod i benderfyniad am gyflog athrawon unigol (yng Nghymru a Lloegr). Mae gosod mwy o bŵer dros benderfyniadau cyflog yn nwylo cyflogwyr yn baratoad ar gyfer troi mwy o ysgolion Lloegr yn academïau.

Nid oes unrhyw archwaeth wedi bod yng Nghymru dros ddatblygu trefn cyflog lleol ond ers 2013 mae Llywodraeth y D.U. wedi caniatáu ac annog mwy o ryddid lleol. Mae cyfundrefn cyflog lleol wedi cychwyn ac mae'n parhau i ddatblygu.

## Ydy athrawon Lloegr yn debygol o gael gwell cyflog nag athrawon Cymru o dan drefn ddatganoledig?

Mae'r sicrwydd oedd arfer bodoli bod athrawon yn cael eu talu'n gyfartal am swyddi tebyg ar gyfnodau penodol yn eu gyrfa wedi hen ddiflannu.

Nid oes sicrwydd mwyach, hyd yn oed, bod athrawon mewn ysgolion cyfagos yn derbyn cyflog tebyg.

Cred UCAC bod datganoli'n cynnig cyfle:

- i sicrhau tegwch i bob athro mewn cyfundrefn genedlaethol
- i **osgoi loteri cod post** am gyflog ac amodau gwaith
- i ddiogelu athrawon Cymru rhag rhagor o **newidiadau niweidiol** i'r strwythur cyflogau
- i wella amodau gwaith athrawon yng Nghymru.

Ers Medi 2013 mae Llywodraeth y D.U. wedi newid y strwythur cyflogau er gwaethaf. Nid oes modd amddiffyn athrawon Lloegr rhag hyn ond mae datganoli'n cynnig cyfle i ni amddiffyn athrawon Cymru.

## Pa newidiadau sydd wedi niweidio Strwythur Cyflogau athrawon?

Mae'r strwythur cyflogau athrawon wedi newid, **er gwaethaf,** ers 2013 gan gynnwys:

- gwneud **tâl yn ôl perfformiad yn statudol** ers penderfyniadau cyflog Medi 2014
- peidio â chaniatáu codiad cyflog chwyddiant awtomatig i bob athro; yn hytrach cyflwyno **codiad cyflog cyfartalog** (*average pay rise*); golyga hyn **gallai rhai dderbyn llai na'r cyfartalog (neu ddim) ac eraill dderbyn mwy.**
- **cael gwared ar y 9 pwynt cyflog** oedd arfer bodoli ar gyfer athrawon dosbarth (6 prif raddfa a 3 uwch raddfa)
- sefydlu **ystodau cyflog** gydag isafswm ac uchafswm yn unig
- rhoi'r hawl i bob ysgol yn unigol bennu pwyntiau penodol rhwng yr isafswm a'r uchafswm; **gall hyn olygu anghysondeb llwyr** yng nghyflogau athrawon
- dileu'r chwe pwynt profiad gorfodol – un am bob blwyddyn o brofiad
- **cael gwared ar hygludedd cyflog** (h.y. yr egwyddor oedd yn sicrhau bod athro dosbarth yn cael cychwyn – fel isafswm – ar y lefel cyflog oedd yn derbyn yn ei swydd flaenorol); golyga hyn bod **hawl talu llai i athro nag oedd yn ennill gynt** mewn ysgol arall. Mae hyn hefyd yn effeithio ar athro sy'n dychwelyd i weithio ar ôl toriad; golyga hyn gellir talu athro **llai nag oedd yn derbyn cyn y toriad gyrfa** a **llai nag athrawon llawer llai profiadol**
- dileu'r hawl awtomatig bod cais mewn un ysgol ar gyfer cyrraedd yr uwch raddfa gyflog (yr ystod cyflog uwch newydd) yn berthnasol mewn ysgol arall; **gallai hyn olygu bod rhaid gwneud cais arall i gyrraedd yr ystod cyflog uwch** wrth symud ysgol

Ers cyflwynwyd y newidiadau hyn i'r strwythur cyflogau athrawon, mae'r undebau wedi cydweithio gyda'r **Awdurdodau Lleol a Chonsortia yng Nghymru** i amddiffyn athrawon Cymru rhag y niwed.

Rydym wedi sicrhau bod ganddynt bolisïau cyflog enghreifftiol i argymell i ysgolion sydd yn cynnwys cymaint o'r hen hawliau ag sydd yn bosib cynnwys, heb dorri'r gyfraith.

Mae'r undebau, felly, wedi gorfod **bargeinio'n lleol** ers 2013 i ddiogelu hawliau cyflog athrawon Cymru.

Mae UCAC wedi:

- pwyso am **gysondeb** ar draws Cymru
- pwyso am y **telerau gorau posib** i athrawon Cymru
- **cymryd rhan flaenllaw** yn y trafodaethau i ddiogelu athrawon Cymru rhag y penderfyniadau cyflog niweidiol hyn.

Mae **eraill wedi brwydro dros gadw'r gyfundrefn Cymru/Lloegr niweidiol** hwn gan ddadlau y bydd athrawon Cymru ar eu colled o dan gyfundrefn ddatganoledig.

Pwyswn arnoch chi i ystyried eto'r rhestr uchod o **newidiadau niweidiol** sydd yn ein harwain ar hyd llwybr cyflog lleol, y farchnad llafur a loteri cod post ar gyfer cyflogau ac amodau gwaith athrawon.

Mae datganoli cyflog ac amodau gwaith yn dod yn realiti – a chred UCAC bod y dystiolaeth o'r hyn sydd wedi digwydd ers 2013 yn awgrymu y bydd datganoli'r cyfrifoldebau **er lles** athrawon Cymru.

Beth yw eich barn chi?

Ydy cyflog athrawon Cymru yn ddiogel dan y gyfundrefn bresennol?

## UCAC yn barod am y newid

Mae **UCAC** yn awyddus i gael y cyfle i drafod cyflog ac amodau gwaith **cenedlaethol** i athrawon Cymru, yng Nghymru.
Fe ddown at y bwrdd gyda **blynyddoedd o brofiad:**

- o baratoi a chyflwyno **tystiolaeth ysgrifenedig** i'r STRB (*School Teachers' Review Body*) yn Llundain fel rhan o'r cylch blynyddol
- o drafod materion cyflog ac amodau gwaith **wyneb i wyneb** gyda'r STRB a'r Adran Addysg yn San Steffan.

UCAC yw'r **<u>unig</u> undeb** gyda Swyddogion o Gymru'n paratoi tystiolaeth ac yn mynychu'r cyfarfodydd allweddol hyn yn Llundain.

UCAC yw'r **<u>unig</u> undeb** gyda Swyddogion o Gymru'n cyfrannu at drafodaethau ar lefel Cymru a Lloegr am gyflog ac amodau gwaith.

Croesawn ddyfodiad cyfundrefn addysg a fydd yn gyfan gwbl ddatganoledig a'r cyfle i sefydlu **cyfundrefn genedlaethol, deg, tryloyw,** i ddiogelu hawliau cyflog ac amodau gwaith athrawon Cymru.

Rydym yn awyddus i ddefnyddio'n profiad helaeth i sicrhau bod y gyfundrefn orau yn cael ei sefydlu.

**Ymunwch gyda ni** i wireddu hyn.

## Atodiad

### Cefndir: y broses ar gyfer penderfynu newidiadau i gyflog ac amodau gwaith athrawon Cymru a Lloegr

**STRB** (Corff Adolygu Athrawon Ysgol / *School Teachers' Review Body*)

Corff annibynnol yw'r **STRB** a sefydlwyd o dan delerau *Deddf Addysg 2002* (ac yn wreiddiol o dan y *School Teachers' Pay and Conditions Act 1991).* Gwaith yr STRB yw gwneud argymhellion i Llywodraeth y D.U. ar gyflog ac amodau gwaith athrawon Cymru a Lloegr sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir neu yn uniongyrchol i Awdurdod Lleol yng Nghymru a Lloegr.

Bob blwyddyn mae'r Llywodraeth yn cyflwyno Cylch Gorchwyl (Remit) i'r STRB sy'n amlinellu beth fydd o dan ystyriaeth y flwyddyn honno ac yna bydd yr STRB:

- yn galw am dystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth rhanddeiliaid
- yn cynnig cyfle i randdeiliaid gyflwyno tystiolaeth lafar
- weithiau yn galw am ymchwil penodol
- yn paratoi adroddiad i'r Llywodraeth yn cynnwys argymhellion am y materion dan sylw.

UCAC yw'r **unig undeb athrawon** sydd â swyddogion o Gymru yn paratoi ac yn cyflwyno tystiolaeth i'r STRB ac yn cwrdd ag aelodau'r STRB i drafod materion cyflog ac amodau gwaith athrawon.

Mae UCAC wedi mynegi pryderon ers nifer o flynyddoedd bod y Llywodraeth yn clymu dwylo'r STRB a'i gwneud yn amhosib i'r Corff gyflwyno argymhellion cwbl annibynnol. Mae Cylch Gorchwyl eleni'n enghraifft o hyn. Mae'r Llywodraeth yn barod wedi penderfynu mai 1% o godiad cyflog cyfartalog bydd ar gael i athrawon o fis Medi 2017. Tasg yr STRB fydd penderfynu **sut** i ddyrannu'r 1%.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/562764/Remit_letter_2017_to_Patricia_Rice_-_STRB.pdf

### STPCD (Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol / *School Teachers' Pay and Conditions Document*)

Mae'r DdCAAY (y Ddogfen) yn cynnwys **manylion statudol** am gyflog ac amodau gwaith athrawon sy'n gweithio unai mewn ysgolion a gynhelir neu'n uniongyrchol i Awdurdod Lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Ddogfen yn cael ei diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu penderfyniadau'r Llywodraeth yn dilyn argymhellion yr STRB.

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/548272/School_teachers__pay_and_conditions_2016_welsh.pdf

Deallwn fod Llywodraeth y D.U. yn golygu cynnal adolygiad o rôl a phwrpas yr STRB a'r STPCD yng nghyd-destun academeiddio ysgolion Lloegr.

Gallai hyn arwain at eu dileu a byddai agenda Llywodraeth y D.U. i ddatblygu **cyflog lleol** i athrawon Cymru a Lloegr yn gyflawn.